OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 551 (Cy.55)

PROFFESIYNAU GOFAL IECHYD A PHROFFESIYNAU CYSYLLTIEDIG, CYMRU

Gorchymyn Proffesiynau Iechyd Cymru (Sefydlu, Aelodaeth, Cyfansoddiad a Swyddogaethau) 2004

Wedi'i wneud	- -	*2 Mawrth 2004*
Yn dod i rym	- -	*5 Mawrth 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 4(1), (3), (4) a (7), 5 ac 8 o Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003(**1**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol: —

Enwi, cychwyn, a dehongli.

1.—(1) Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Proffesiynau Iechyd Cymru (Sefydlu, Aelodaeth, Cyfansoddiad a Swyddogaethau) 2004 a daw i rym ar 5 Mawrth 2004.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "y Cynulliad" ("*the Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "dyddiad sefydlu" ("*establishment date*") yw 1 Mawrth 2004;

ystyr "dyddiad gweithredol" ("*operational date*") yw 1 Ebrill 2004;

ystyr "PIC" ("*HPW*") yw Proffesiynau Iechyd Cymru neu Health Professions Wales a sefydlir gan erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

Sefydlu Proffesiynau Iechyd Cymru

2. Sefydlir drwy hyn, a bydd yn effeithiol o'r dyddiad sefydlu, gorff corfforaethol a elwir Proffesiynau Iechyd Cymru neu Health Professions Wales.

Diben a swyddogaethau PIC

3.—(1) Sefydlir PIC at ddibenion ymgymryd â swyddogaethau mewn perthynas â phroffesiynau gofal iechyd a gweithwyr cymorth gofal iechyd.

(2) Dyma swyddogaethau PIC a fydd yn ei alluogi i wneud y canlynol —

(a) ar ran y Cynulliad—

(**1**) 2003 p.4.

(i) hybu a chynghori ar ansawdd a darpariaeth addysg, hyfforddiant ac ymarfer,

(ii) ymgymryd â swyddogaethau awdurdod goruchwylio lleol yn unol ag erthygl 42(1)(b) ac erthygl 43 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001(**2**),

(iii) ymgymryd â swyddogaethau (ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â gwneud deddfwriaeth sylfaenol) o dan adran 63 o Ddeddf Gwasanaethau Iechyd a Iechyd Cyhoeddus 1968(**3**);

(b) gwneud trefniadau â Chyngor Proffesiynau Iechyd Cymru(**4**) i gyflawni swyddogaethau ar ran y Cyngor hwnnw mewn perthynas â Chymru;

(c) gwneud trefniadau â Chyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth(**5**)) i gyflawni swyddogaethau ar ran y Cyngor hwnnw mewn perthynas â Chymru;

(ch) gwneud trefniadau ag unrhyw gorff arall i gyflawni swyddogaethau ar ran y corff hwnnw mewn perthynas â Chymru; a

(d) cyflawni'r trefniadau hynny.

(3) Rhaid i PIC yn ymgymryd â'i swyddogaethau o'r dyddiad gweithredol ymlaen.

(4) Caiff unrhyw aelod neu aelod o staff PIC, neu unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor PIC, wneud unrhyw beth a awdurdodwyd at y diben gan PIC (boed yn gyffredinol neu'n benodol) yr awdurdodwyd PIC i'w wneud neu sy'n ofynnol i PIC ei wneud.

(5) Caiff PIC godi'r ffioedd hynny y mae o'r farn eu bod yn briodol am unrhyw wasanaethau y mae'n eu darparu wrth gyflawni unrhyw swyddogaeth.

(6) Caiff PIC wneud unrhyw beth y mae'n ystyried sy'n angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion arfer ei swyddogaethau neu mewn cysylltiad â hwy.

(7) Ni chaiff dilysrwydd unrhyw drafodion PIC eu heffeithio gan—

(a) unrhyw le gwag yn swydd y cadeirydd neu swydd aelod arall,

(b) unrhyw ddiffyg ym mhenodiad person fel cadeirydd neu aelod arall, neu

(c) cyfansoddiad aelodaeth PIC ar y pryd.

Swyddogaethau cyfyngedig cyn y dyddiad gweithredol

4. Rhwng y dyddiad sefydlu a'r dyddiad gweithredol bydd gan PIC y swyddogaethau canlynol —

(a) ymrwymo mewn contractau gan gynnwys contractau gwaith; a

(b) gwneud y pethau eraill hynny sy'n rhesymol angenrheidiol i'w alluogi i ddechrau gweithredu'n foddhaol o'r dyddiad gweithredol ymlaen.

Dyddiad cyfrifyddu PIC

5. Dyddiad cyfrifyddu PIC fydd 31 Mawrth.

(**2**) O.S. 2002/253; offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2002/881 ac O.S. 2002/1125. Trosglwyddwyd swyddogaethau awdurdodau goruchwylio lleol oddi wrth yr awdurdodau iechyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2003 O.S. 2003/813 (Cy.98).

(**3**) 1968 p.46. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Iechyd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd gan Orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol dros y Gwasanaethau Cymdeithasol 1968, O.S. 1968/1699 a Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Iechyd a Nawdd Cymdeithasol) 1988, O.S. 1988/1843.
Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672, erth 2, Atodlen 1.

(**4**) Sefydlwyd gan O.S. 2002/254 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/1571 ac O.S. 2003/1572.

(**5**) Sefydlwyd gan O.S. 2002/253; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2002/881 ac O.S. 2002/1125.

Aelodau PIC

6.—(1) Bydd PIC yn cynnwys y canlynol—

(a) cadeirydd (a fydd yn aelod o PIC) a benodwyd gan y Cynulliad;

(b) aelodau eraill a benodwyd gan y Cynulliad a chaiff y Cynulliad, os gwêl yn dda, benodi un o'r aelodau eraill yn is-gadeirydd.

(2) Mwyafswm nifer aelodau PIC fydd 24.

(3) Os na chafodd is-gadeirydd ei benodi gan y Cynulliad, yna caiff yr aelodau benodi un o'u plith yn is-gadeirydd am y cyfnod hwnnw, nad yw'n fwy na gweddill cyfnod yr aelod hwnnw fel aelod o PIC, y caiff yr aelodau ei bennu.

(4) Os digwydd y canlynol —

(a) bod aelod a benodwyd naill ai gan y Cynulliad o dan erthygl 6(1)(b) neu gan aelodau o dan erthygl 6(3) yn is-gadeirydd, a

(b) bod y cadeirydd wedi marw neu wedi peidio â dal y swydd, neu os na all gyflawni dyletswyddau'r cadeirydd oherwydd salwch, absenoldeb o'r Deyrnas Unedig neu unrhyw achos arall,

rhaid i'r is-gadeirydd weithredu fel cadeirydd hyd nes y penodir cadeirydd newydd neu nes bod y cadeirydd yn ailafael yn nyletswyddau cadeirydd yn ôl y digwydd, a bernir y bydd cyfeiriadau at y cadeirydd, am ba hyd bynnag nad oes cadeirydd sy'n gallu cyflawni dyletswyddau cadeirydd, yn cynnwys cyfeiriadau at yr is-gadeirydd.

(5) Aelodau PIC fydd—

(a) (i) personau o'r proffesiynau a gynrychiolir gan Bwyllgor Ymgynghorol Therapïau Cymru, Pwyllgor Gwyddoniaeth Ymgynghorol Cymru a Phwyllgor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru(**6**),

(ii) pobl broffesiynol sy'n meddu ar y cymwysterau, diddordebau neu brofiad a fyddai'n werthfawr wrth iddo arfer ei swyddogaethau,

(iii) personau sy'n cynrychioli gweithwyr cymorth gofal iechyd; a

(b) personau sydd â'r cyfryw gymwysterau, diddordebau neu brofiad a fydd yn werthfawr i PIC wrth iddo arfer ei swyddogaethau ond nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Cyngor Proffesiynau Iechyd Cymru, neu nad ydynt ar eu cofrestrau, neu unrhyw gorff rheoleiddio arall sy'n ymwneud â'r proffesiynau gofal iechyd a gweithwyr cymorth gofal iechyd.

(6) Rhaid i'r Cynulliad yn arfer ei bwerau i benodi aelodau PIC i sicrhau ar bob adeg na fydd llai na 45% o'r aelodau yn bersonau a benodir yn unol â pharagraff (5)(b) uchod.

(7) Bydd y cadeirydd ac aelodau eraill PIC yn dal swydd ac yn ymadael â'r swydd yn unol â thelerau eu penodiad perthnasol.

(8) Bydd cyfnod swydd y cadeirydd, yr is-gadeirydd aelodau eraill PIC am y cyfnod y caiff y Cynulliad ei benderfynu ond ni fydd —

(i) yn achos y cadeirydd, am gyfnod hirach na chyfnod o bum mlynedd,

(ii) yn achos yr is-gadeirydd, am gyfnod hirach na chyfnod o bum mlynedd, a

(iii) yn achos aelodau eraill, am gyfnod hirach na phum mlynedd;

(i) Yn ddarostyngedig i (ii) isod, ni fydd gwasanaeth blaenorol fel cadeirydd neu aelod arall o PIC yn effeithio ar gymhwyster person i gael ei benodi fel cadeirydd, is-gadeirydd neu aelod arall.

(**6**) Mae'r Cynulliad yn cydnabod Pwyllgor Ymgynghorol Therapïau Cymru, Pwyllgor Gwyddoniaeth Ymgynghorol Cymru a Phwyllgor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru o dan baragraff 1(1) o Atodlen 6 o Ddeddf 1977 fel cynrychiolwyr categori neu gategorïau y personau sy'n darparu gwasanaethau sy'n ffurfio rhan o'r gwasanaeth iechyd.